

**GORCHYMYN SIR PENFRO**  
**(FFYRDD AMRYWIOL, CARNHEDRYN, TYDDEWI)**  
**(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2023**

---

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adran 84 a Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith y gorchymyn fydd cyflwyno terfyn cyflymder clustogi o 40 mya ym mhentrefan Carnhedryn, fel y nodir yn yr atodlen i'r gorchymyn hwn.

Gellir gweld copi o'r gorchymyn drafft a datganiad o resymau'r cyngor dros gynnig gwneud y gorchymyn ar-lein yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Os hoffech wrthwynebu'r gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad drwy gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein neu yn ysgrifenedig at yr islofnodedig erbyn y pedwerydd diwrnod o Ionawr 2023. Dyfynnwch: A487CARN-S/L

Dyddiedig y 14eg diwrnod hwn o fis Rhagfyr 2022.

Darren Thomas  
Pennaeth Seilwaith  
Cyngor Sir Penfro  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd

**Atodlen**  
**Terfyn Cyflymder o 40mya**

**Ffordd**

Yr A487

Yr U3004

Yr U3025

**Hyd**

O bwynt 180 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â'r U3004 i bwynt 155 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â'r U3025.

O'r gyffordd â'r A487 tua'r gogledd am 230 metr.

O'r gyffordd â'r A487 tua'r de am 74 metr.

## **DATGANIAD O'R RHESYMAU**



Mae adolygiad terfyn cyflymder wedi ei gynnal ar ffordd yr A487 yng Ngharnhedryn, Tyddewi. Ystyriodd yr adolygiad hanes y gwrthdrawiadau, data'r arolwg cyflymder a geometreg y ffordd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn cyflymder presennol i 40mya drwy bentrefan Carnhedryn.



# A487 Carnhedryn SL Review

Map produced on: 07 December 2022

Scale (A3 Print)  
1:2000



**GORCHYMYN SIR PENFRO**  
**(FFYRDD AMRYWIOL, CARNHEDRYN, TYDDEWI)**  
**(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2023**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl hawliau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:-

- Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y rhannau o'r ffordd a bennir yn yr atodlen i'r gorchymyn hwn.
- Gellir cyfeirio at y gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol, Carnhedryn, Tyddewi) (Terfyn Cyflymder 40mya) 2023" a daw i rym ar y \*\* diwrnod o Chwefror Dwy Fil a Thri ar Hugain.

**RHODDIR** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y \*\* diwrnod hwn o Ionawr, Dwy Fil a Thri ar Hugain.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR**  
**SIR PENFRO**  
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

**Atodlen**  
**Terfyn Cyflymder o 40mya**

**Ffordd**

Yr A487

Yr U3004

Yr U3025

**Hyd**

O bwynt 180 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â'r U3004 i bwynt 155 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â'r U3025.

O'r gyffordd â'r A487 tua'r gogledd am 230 metr.

O'r gyffordd â'r A487 tua'r de am 74 metr.